

Prifysgol Cymru Aberystwyth 1872 The University of Wales

Gwasanaethau Gwybodaeth
Information Services

BUDDSODDWR MEWN POBL

NEWYDDION GG

http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/isnews.asp

Mai 2006

Ceir yn y fersiwn brintiedig hon o Newyddion GG ond ychydig o'r eitemau newyddion yn llawn, ynghyd â nifer o gyflwyniadau byr i eraill a geir yn eu cyfanrwydd yn y fersiwn arlein. Gellir dilyn erthygl unigol naill ai drwy glicio ar y cyfeiriad, neu drwy news.asp. Ceir yno hefyd ôl-rifynnau ynghyd ag eitemau ac erthyglau diweddar nas ceir yn y fersiwn brintiedig hon.

System newydd hidlo sbam

Efallai eich bod wedi sylwi dros yr wythnosau diwethaf ar gynnydd yn y sbam sy'n cyrraedd eich cyfrif e-bost. Y rheswm am hyn yw bod un o'r technegau a ddefnyddir yn Aber ar gyfer hidlo sbam (*greylisting*) yn dechrau colli ei effeithiolrwydd. Mae sbamwyr yn dechrau defnyddio meddalwedd newydd sydd wedi ei gynllunio'n benodol ar gyfer osgoi *greylisting*. Mae *greylisting* wedi ei osod o flaen ein holl hidlwyr ac mae wedi bod yn gyfrifol am rwystro'r rhan fwyaf o sbam dros y tair blynedd diwethaf. Ond nawr, gan fod mwy o sbam yn llwyddo i'w basio, nid yw'r hidlwyr eraill yn gwneud eu gwaith yn iawn.

Amser i newid

Dros y blynyddoedd diwethaf mae holl 'dirlun' sbam wedi newid, ac er mwyn ymateb i hyn mae'n rhaid i ni wneud newidiadau. Mae system newydd wedi ei chynllunio sydd â gwell rheolaeth dros sut a phryd y dylai negeseuon gael eu rhwystro. Erbyn hyn, mae'n bosibl i chi nodi eich dewisiadau hidlo ar gyfer aliasau post a rhestrau dosbarthu, ac i nodi nad yw rhai cyfeiriadau penodol byth i dderbyn post o'r tu allan.

Bydd yr hen system hidlo yn dod i ben ar 1 Medi 2006, a gan na fydd y rhan fwyaf o'r opsiynau newydd yn gymaradwy â'r hen rai bydd angen i chi osod eich dewisiadau hidlo ar http://spam.aber.ac.uk/.

Am y darlun cyflawn gweler:
http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/may06/spam.asp

Lansio CADAIR

Yn dilyn treialu meddalwedd storfa DSpace, rydym wedi dechrau gosod a rhedeg storfa sefydliadol ddigidol o'r enw CADAIR (Cloddfa Asedau Digidol/Aberystwyth Institutional Repository). Gweler http://cadair.aber.ac.uk/. Prif nod CADAIR yw cynyddu amlygrwydd cynnyrch ymchwil PCA trwy sicrhau ei fod ar gael ar y We. Hyd yma, fel rhan o gynllun peilot, mae rhai o bapurau'r Adran Gyfrifiadureg wedi cael eu gosod ar y We ac mae'r canlyniadau cynnar yn awgrymu bod hyn yn cynyddu eu hamlygrwydd yn sylweddol e.e. trwy gynyddu eu hymddangosiad ar 'Google'.

Trwy ddefnyddio rhyngwyneb Gwe CADAIR, gellir gosod papurau a deunyddiau eraill yn hawdd, ac mae hefyd yn eich galluogi i chwilio a phori yn y storfa. Mae'r rhan fwyaf o gyhoeddwyr yn hapus i awduron hunan-archifo eu papurau mewn storfa ac iddi fynediad agored megis CADAIR. Mae tudalen hafan CADAIR yn cynnwys dolen sy'n galluogi awduron i ddarllen polisi hunan-archifo eu cyhoeddwyr.

Ar hyn o bryd, gwasanaeth peilot uniaith Saesneg yw CADAIR. Os caiff ei lansio fel gwasanaeth a gefnogir yn llawn, fe fydd ar gael yn ddwyieithog.

Os am fwy o wybodaeth am CADAIR, porwch trwy'r Wefan, neu cysylltwch â Jon Bell ar (jpb@aber.ac.uk) neu Stuart Lewis ar (sdl@aber.ac.uk).

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 – Disgwyddiad Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd

Ym mis Chwefror eleni, trefnodd Gwasanaethau Gwybodaeth Ddigwyddiad Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd a oedd yn cynnwys siaradwyr o'r Comisiwn Hawliau Anabledd, SGIL Cymru a Chymdeithas Dyslecsia Prydain. Carem ddiolch i'r Athro Lyn Pykett am gadeirio'r digwyddiad hwn a fynychwyd gan aelodaeth o bum prifysgol yng Nghymru, 14 cynrychiolwr o adrannau PCA, aelodau CLAUD Cymru, Canolfannau Cefnogaeth Rhanbarthol ar gyfer Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Heddlu Dyfed Powys, Cyngor Ceredigion ac Ymddiriedolaeth GIC Ysbyty Bronglais. Diolch hefyd i'r Uned Gyfieithu am eu gwasanaeth.

Ymgynghoriadau Ford Gron

Fel rhan o broses ymgynghorol newydd sy'n cefnogi'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DGSA) 2005 Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd, cynhaliodd Gwasanaethau Gwybodaeth ddau gyfarfod a oedd yn canolbwyntio ar anabledd gan edrych ar bob agwedd o ddarpariaeth llyfrgell a chyfrifiadurol o fewn Gwasanaethau Gwybodaeth. Heb godi gobeithion afrealistig, gobeithiwn barhau i gynnwys staff a myfyrwyr mewn trafodaethau ynghylch effeithiolrwydd ein dulliau, ein polisïau a gwelliannau o ran gwaith DGSA, a hyderwn y byddant yn tynnu ein sylw at yr hyn sy'n llwyddo ac at yr hyn sy'n galw am fwy o waith. Rydym wedi casglu sylwadau ein defnyddwyr ar ôl y ddau gyfarfod cyntaf a byddwn yn cyfarfod eto ar ddiwedd mis Ebrill er mwyn dechrau ar ran nesaf y trafodaethau. Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn cynnwys aelodau o Ystadau (Diogelwch a Gwaith DGSA), Swyddog Ymgyrchoedd, Cyfathrebiadau a Chyfleoedd Cyfartal Urdd y Myfyrwyr, a Swyddog Anabledd yr Urdd, Swyddog Anabledd PCA, a chynrychiolwyr o staff Gwasanaethau Gwybodaeth (Gwasanaethau Benthyg, Technoleg Dysgu, Meddalwedd, TG a Gweithredu Canolog, Gwasanaethau Llyfrgell ac Ymgynghori). Diolchwn i bawb am gymryd rhan, ac yn enwedig i'r myfyrwyr a roddodd o'u hamser i ymuno â ni. Gobeithiwn y bydd mwy o fyfyrwyr yn mynychu'r gweithgaredd pwysig hwn yn y dyfodol. Os oes gennych chi, neu unrhyw un o'ch myfyrwyr ddiddordeb mewn ymuno â'r grŵp ffocws yma, cysylltwch â Gill Price ar 2493 neu gmp@aber.ac.uk

Gellir gweld tri o gyflwyniadau'r siaradwyr (yn Saesneg yn unig) ar:
http://www.inf.aber.ac.uk/disability/DED/presentations.asp

Gill Price, Arweinydd Tîm Technoleg Dysgu (gmp@aber.ac.uk)

Arolwg Defnyddwyr Gwasanaethau Gwybodaeth 2006

Mae canlyniadau Arolwg Defnyddwyr GG 2006 ar gael yn awr ar:
http://www.inf.aber.ac.uk/library/cymraeg/survey-result.asp

Cafwyd ymateb gan fwy na 700 o ddefnyddwyr i'r holl wasanaethau cyfrifiadurol a llyfrgellol. Bydd eu sylwadau'n werthfawr iawn wrth i ni gynllunio ar gyfer datblygiadau newydd dros y flwyddyn sydd i ddod. Enillydd y wobr gysylltiol oedd Michael Cavaye o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, a bydd yn derbyn tocyn llyfr gwerth £25.

Gwobrau CyMAL

Mae Gwasanaethau Gwybodaeth wedi llwyddo i ddenu arian newydd gan CyMAL, sef Cyngor Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd Cymru, er mwyn galluogi datblygiadau pellach yn y gwasanaeth dros y flwyddyn i ddod. Yn ystod y misoedd diwethaf lansiwyd partneriaeth gydweithredol newydd rhwng llyfrgelloedd yng nghanolbarth Cymru, sef Linc y Canolbarth. Mae'n caniatáu benthyca llawer mwy hwylus rhwng y llyfrgelloedd ac yn cefnogi amrywiaeth o fentrau ar gyfer hyfforddi staff. Ceir manylion ynghylch y fenter newydd ar:
http://www.lincycanolbarth.org.uk/index_cym.html

Mae arian pellach ar gael yn awr ar gyfer datblygu'r bartneriaeth hon yn ystod 2006/7 drwy greu nifer o fentrau newydd a fydd yn caniatáu i'r Brifysgol ymestyn i'r gymuned leol. Mae CyMAL hefyd wedi darparu arian ar gyfer menter gydweithredol rhwng Gwasanaethau Gwybodaeth ac Archifau Ceredigion a fydd yn galluogi cyflogi Cynorthwyydd Archifau Graddedig dan Hyfforddiant o fewn y ddau sefydliad.

Bill Hines, Isgyfarwyddwr Gwasanaethau Llyfrgell a Chynghori (whh@aber.ac.uk)

Strategaeth E-ddysgu

Yn ddiweddar mae'r Brifysgol wedi cymeradwyo Strategaeth E-ddysgu newydd.
Gweler http://www.aber.ac.uk/cy/academic/e-learning/

Nod y Strategaeth yw 'gwneud ymdrech weithredol i gefnogi ac annog y defnydd priodol o dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) wrth ddysgu ac addysgu ar bob lefel', ac mae ganddi nifer o amcanion strategol er mwyn cyflawni hyn. Bydd staff o'r Tîm Technoleg Dysg yn gweithredu nifer o fentrau newydd yn ystod y naw mis nesaf, gan gynnwys ymgynghori â'r holl adrannau ynghylch eu defnydd presennol a thebygol o E-ddysgu.

Mynediad i Gyfleusterau Gwasanaethau Gwybodaeth

Mae Gwasanaethau Gwybodaeth yn cynnig mynediad i Lyfrgelloedd y Brifysgol, cyfleusterau e-bost, gwasanaethau Cyfrifiaduro Canolog ac ystafelloedd Gweithfannau Cyhoeddus ar gyfer Defnyddwyr GG Cofrestredig. Rheolir y mynediad hwn gan GG yn unol â pholisi'r Brifysgol er mwyn lleihau'r risg o gamddefnydd.

Mae tudalen gwe http://www.inf.aber.ac.uk/regulations/cymraeg/is_access.asp yn nodi manylion y drefn gofrestru er mwyn cael mynediad i gyfleusterau GG ac i sicrhau nad yw mynediad defnyddiwr yn terfynu'n rhy gynnar.

E-bostiwch unrhyw ymholiadau at: is-access@aber.ac.uk

Diwrnod y Llyfr

Lliw a llyfrau oedd y drefn yn gynharach eleni yn Llyfrgell Thomas Parry gydag arddangosfa i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Llyfr 2006. Wedi ei hanelu'n bennaf at ddarpar lyfrgellwyr plant ymhlith myfyrwyr AAG, roedd yr arddangosfa'n cynnwys deunydd cyhoeddusrwydd lliwgar a llyfrau newydd hardd o'r Casgliad Plant. Rhoddwyd sylw arbennig i lyfrau oedd wedi ennill gwobrau'n ddiweddar, ynghyd â nifer o ffynonellau llyfryddol sydd ar gael i gynorthwyo wrth eu dewis.

Lisa Venning, Gwasanaethau Benthyca (ejv@aber.ac.uk)

AStRA – Arolwg ar derfyn y prosiect

Cychwynnwyd Prosiect AStRA (Aberystwyth Student Records and Admissions) ym mis Mawrth 2001 er mwyn creu caledwedd newydd, datblygu mynediad gwe i gofnodion myfyrwyr a chofnodion derbyn, a sicrhau gwell hygyrchedd wrth gofnodi a dadansoddi'r wybodaeth yma. Daeth y prosiect i ben yn swyddogol ym mis Awst 2005, ac ym mis Ionawr 2006 cynhaliwyd adolygiad ynghyd ag arolwg ymhlith y defnyddwyr.

Casgliad yr arolwg oedd bod y prosiect wedi bod yn llwyddiant mawr. Cyflawnwyd mwyafrif yr amcanion, ac er ei fod ychydig yn hwyr fe'i cwblhawyd o fewn y gyllideb.

Am fwy o fanylion gweler: http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/may06/astra.asp

Mae cyfrineiriau Athens wedi dod i ben

Mewngofnod Athens PCA

Rydym wedi bod yn defnyddio'r system DA (Devolved Authentication) i ddilysu mynediad i gylchgronau ac adnoddau electronig a ddilysir gan Athens ers dros flwyddyn bellach. Mae hwn wedi profi i fod yn ddull haws o gael mynediad i fwyafrif o ddefnyddwyr oddi ar y campws gan mai dim ond cyfrinair ac enw defnyddiwr PCA arferol sydd eu hangen. Er mwyn osgoi gorfod cynnal y ddwy system ochr-yn-ochr, mae hen system cyfrinair Athens yn awr wedi dod i ben. Bellach, nid oes angen i chi gael cyfrinair Athens ar wahân; defnyddiwch eich cyfrinair e-bost PCA arferol er mwyn cael mynediad i'r adnoddau hyn.

I wybod mwy am y drefn newydd gweler: http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/may06/athens.asp

Meddalwedd newydd ar gael

Am fwy o wybodaeth am ddiweddariadau i Nvivo, Keypoint, SPSS ac EndNote, ac am ddiwedd Hummingbird Exceed, ewch i:

http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/may06/newsa.asp

Profi'r Cynllun Trychineb

Cynhaliodd Gwasanaethau Gwybodaeth brawf o'u Cynllun Trychineb ar ddydd Iau, Ionawr 5ed ac fe brofodd yn llwyddiannus iawn. Hoffem ddiolch i bawb am eu hamynedd a'r adborth a ddaeth i law.

Am adroddiad byr o ddigwyddiadau'r diwrnod gweler:
http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/computing/disasterreport.asp

JoEy – dull PCA o gael mynediad i egyfnodolion

Mae JoEy wedi cael ei ailgynllunio ac mae ganddo bellach ryngwyneb symlach a dwyieithog. Gan fod gennym erbyn hyn fynediad i destun llawn dros 6000 o gyfnodolion electronig, ym mhob pwnc, mae JoEy wedi datblygu'n ddolen bwysig ar gyfer cael mynediad i destun llawn papurau ymchwil ac erthyglau arlein. Defnyddiwch y cronfeydd data a'r mynegeion ar E-Wybodfa er mwyn gweld yr erthyglau a'r papurau sydd wedi eu hysgrifennu am eich pwnc chi, ac yna dowch o hyd i'r cyfnodolyn ar JoEy. Defnyddiwch y botymau 'Gwybodaeth' a 'Cyfrinair' er mwyn cael gwybodaeth am y cronfeydd data a gwasanaethau egyfnodolion, yn ogystal â manylion ynghylch cael mynediad ar, ac oddi ar, y campws. Erbyn hyn mae JoEy hefyd yn cynnwys dolenni ar gyfer amryw o ffynonellau o gyfnodolion mynediad agored, yn ogystal â gwasanaeth ymwybyddiaeth cynnwys cyfnodolion. Mae hefyd yn darparu gwasanaeth RSS er mwyn eich hysbysu ynghylch y cyfnodolion newydd sy'n cael eu hychwanegu i JoEy.

E-Wybodfa: http://www.inf.aber.ac.uk/academicliaison/cymraeg/elecinfo.asp
JoEy: http://www.aber.ac.uk/is/ejournals/

Sandra Morris, Swyddog Datblygu Gwybodaeth Electronig, Tîm Cynorthwywyr Pwnc ac E-Lyfrgell (ssm@aber.ac.uk)

Cynllunio Llyfrgelloedd: yr adnodd ar gyfer cynllunio ac adeiladu llyfrgelloedd

www.designinglibraries.org.uk

Aelodau'r Tîm:
Andrew Isherwood, Alan Clark, Helena Earnshaw a Michael Dewe

Mae'r porth llwyddiannus ar gyfer cynllunio llyfrgelloedd sy'n seiliedig yn PCA Aberystwyth newydd dderbyn arian sylweddol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf gan y Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau. Yn wreiddiol yn gysylltiedig â llyfrgelloedd cyhoeddus yn y DG, fe fydd yn awr yn ehangu maes ei ddiddordeb i gynnwys pob math o lyfrgelloedd ar draws y byd, gan ddatblygu'n adnodd anhepgor i unrhyw un sy'n ymwneud ag unrhyw agwedd o gynllunio llyfrgelloedd.

Gellir cysylltu â thîm Designing Libraries ar: info@designinglibraries.org.uk

Alan J Clark, Cydgordiwr y Prosiect Cynllunio Llyfrgelloedd

Cyrsiau Hyfforddi

Cofiwch fod Gwasanaethau Gwybodaeth yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau hyfforddi ar gyfer myfyrwyr a staff. Ceir manylion am y cyrsiau i gyd ar:
http://www.inf.aber.ac.uk/courses/cymraeg/

Tîm Golygyddol

Elgan Davies (epd), Laurence Dupont (lrd), Mary Green (mcg), Jacqui Kenton (jck), Christine Hughes (cmh), Simon Marshall (som), Dermot Ryan (drr), Jackie Woollam (jaw), Kate Wright (kaw).

Gwasanaethau Gwybodaeth, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, Penglais, Aberystwyth, SY23 3DZ.

Cyhoeddir NEWYDDION GG yn rhad ac am ddim gan Gwasanaethau Gwybodaeth ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Croesewir eich sylwadau a'ch syniadau. Os nad ydych wedi derbyn copi personol ohono ac y dymunwch gael un yn y dyfodol, gellir ychwanegu eich enw at y rhestr ddosbarthu drwy gysylltu â'r Golygydd (epd@aber.ac.uk).